# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

**Yr Athro E. Wyn James**



**'I mewn i'r arch â nhw': rhagor o atgofion am Gwilym Roberts a'r Urdd**

Cafwyd atodiad sylweddol yn rhifyn Chwefror 2026 o'r *Dinesydd* yn coffáu Gwilym Roberts, Rhiwbina, a fu farw ar 4 Tachwedd 2025 yn 90 oed. Roedd y rhifyn yn goffâd teilwng iawn i un o gewri'r bywyd Cymraeg yng Nghaerdydd ac ymhell y tu hwnt, ac i un a fu'n gefn mawr i'r *Dinesydd*. A dangoswyd yn glir gan y teyrngedau amrywiol yn yr atodiad ba mor bwysig oedd cyfraniad Gwilym i'r Gymraeg a'i diwylliant dros flynyddoedd lawer.

Penderfynais neilltuo'r golofn 'Llys a Llan' yn rhifyn Chwefror i sôn am Gwilym a'i gyfraniad, gan ganolbwyntio'n arbennig ar fy nghyfarfyddiad cyntaf ag ef ar gwrs dysgu Cymraeg yng ngwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn adeg y Pasg 1967, a minnau'n 16 oed ar y pryd. Fel y nodais, derbyniais wersi gan Gwilym yn ystod y cwrs, gan syrthio dan gyfaredd ei egni a'i frwdfrydedd a'i gariad angerddol at y Gymraeg.

Roedd y cwrs hwnnw'n drobwynt gyda'r pwysicaf yn fy mywyd. Fel yr eglurais yn rhifyn Chwefror, di-Gymraeg i raddau helaeth oedd fy magwraeth yn ardal Merthyr Tudful, a phrin iawn oedd fy Nghymraeg cyn mynd ar Gwrs y Pasg yn 1967. Ond dan ddylanwad y tîm o swyddogion, a Gwilym Roberts yn amlwg yn eu plith, fe'm taniwyd yr adeg honno i fynd ati o ddifrif i ddysgu'r Gymraeg.

Un arwydd o'r trobwynt hwnnw yn fy mherthynas â'r Gymraeg oedd imi fentro i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala yn Awst 1967, lle y bûm yn dyst i seremoni hanesyddol, pan goronwyd Eluned Phillips gan yr Archdderwydd Gwyndaf – yr ail dro yn unig i fenyw ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol. Dilys Cadwaladr oedd y gyntaf yn 1953, a bu'n rhaid aros nes i Eluned Phillips ennill ei hail Goron yn 1983 cyn gweld menyw yn cael ei choroni am y trydydd tro yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Nid Cwrs y Pasg yn 1967 oedd diwedd fy nghysylltiad ag Urdd Gobaith Cymru, nac â Gwilym Roberts, o bell ffordd. Dywedais yn fy ngholofn yn rhifyn Chwefror y deuai cyfle eto, efallai, imi sôn ymhellach am ddylanwad Gwilym a'i gymwynasgarwch; a dyma benderfynu 'taro'r haearn tra bo'n boeth', a neilltuo fy ngholofn y tro hwn i sôn rhywfaint am fy nghysylltiadau â Gwilym ac â'r Urdd wedi Cwrs y Pasg yn 1967.

Mrs Meinwen Rees, gwraig y Parch. D. Ben Rees (a oedd yn weinidog yn Abercynon ar y pryd, cyn symud i Lerpwl yn 1968), oedd pennaeth y Gymraeg yn fy ysgol uwchradd yn 1967. Hi oedd wedi hwyluso'r ffordd imi fynychu Cwrs y Pasg yng Nglan-llyn, er nad oeddwn yn astudio'r Gymraeg yn yr ysgol ar y pryd. A dyma hi yn awr, ym mis Medi 1967, yn caniatáu i mi ymuno â'r dosbarth a oedd yn dechrau astudio'r Gymraeg ar gyfer Lefel A (ail-iaith), er nad oedd gennyf gymhwyster Lefel O yn y pwnc! Ac arweiniodd hynny maes o law ataf yn mynd i Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth ym mis Medi 1969 i astudio ar gyfer gradd yn y Gymraeg.

Yn ystod fy nghyfnod yn y Chweched Dosbarth, ac yna yn fy mlynyddoedd cyntaf yn Aberystwyth, bu'r Urdd yn bont ragorol – gwbl allweddol, yn wir – i mi i mewn i'r bywyd Cymraeg. Darparodd gyfleodd a chyd-destunau, yn lleol ac yn genedlaethol, imi ymarfer a gwella fy Nghymraeg. Ond ar ben hynny, bu'n gyfrwng imi ymdreiddio'n gynyddol i'r bywyd Cymraeg ac ymgyfarwyddo â'i diwylliant, nid lleiaf trwy ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg o bob cwr o'r wlad.

Roedd gwersylloedd yr Urdd yn ganolog yn hynny o beth. Byddwn yn mynd i wersyll Glan-llyn ar dro, i fynychu cyrsiau iaith a chyrsiau gwerin yn fwyaf arbennig. Euthum yno hefyd yn haf 1969 i 'wersyll Celtaidd arbrofol', lle y cafwyd cwmni deg o bobl o wledydd Celtaidd eraill. Yn ystod yr wythnos honno, buom yn gwrando ar sgyrsiau gan dri gŵr gwadd, sef Gwyn Williams (o'r BBC ym Mangor) ar 'ganeuon ysgafn modern'; E. G. Millward (o Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Aberystwyth) ar 'dyfiant yr ymwybyddiaeth genedlaethol'; a'r bardd a'r Arolygydd Ysgolion, Geraint Bowen, ar 'sefyllfa'r iaith yng ngwlad Israel, a'r hyn y gallem ni fel cenedl ei ddysgu ganddynt hwy' – a dyna enghraifft dda o'r ffordd yr oedd yr Urdd yn gyfrwng i mi ddysgu, nid yn unig am ddiwylliant Cymru, ond am y gwledydd Celtaidd eraill hefyd. Ond mynychwn wersyll Llangrannog yn amlach na Glan-llyn, gan dreulio wythnosau lawer yno yn swyddog. Ac yng Nglan-llyn ac yn Llangrannog, byddwn yn cwrdd yn rheolaidd â Gwilym Roberts, a oedd yn dipyn o 'bresenoldeb' ymhlith y swyddogion yng ngwersylloedd yr Urdd, a dweud y lleiaf.

Dechreuais gadw dyddiadur ar ddechrau 1968, ac mae'n llawn cyfeiriadau at ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr Urdd. Er enghraifft, yn ogystal â threulio cyfnodau yng ngwersylloedd Glan-llyn a Llangrannog, bûm yn stiwardio yn eisteddfodau cylch a sir yr Urdd ym mis Mawrth, gan fynd wedyn i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanrwst ym mis Mehefin. Ym mis Gorffennaf, euthum i Ŵyl Werin yr Urdd yng Ngwauncaegurwen. Ym mis Awst, bûm yn stiwardio yn Noson Lawen yr Urdd yn Eisteddfod Genedlaethol y Barri. A ddydd Sadwrn, 12 Hydref, bûm ar daith gerdded, 'Tramp a Thwmp', a drefnwyd gan J. Cyril Hughes i godi arian ar gyfer canolfan newydd yr Urdd yn Heol Conwy, Caerdydd. Taith o tua 11 milltir ydoedd, yn dechrau yng nghyffiniau Abercynon, gan fynd trwy Lanfabon, Senghennydd, Abertridwr ac Eglwysilan, a gorffen yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydfelen, lle yr oedd 'nyrs i ofalu am eich traed os

bydd angen'. Ac yn Ysgol Rhydfelen cafwyd pryd o fwyd ac yna, 'wedi gorffwys ennyd', noson o ddawnsio gwerin – y traed yn caniatáu, wrth gwrs!

Yn fy nyddiadur ar gyfer dydd Sadwrn, 6 Ionawr 1968, ceir y cofnod moel 'Caerdydd. 3.0 – Gwilym.' Dyma, hyd y cofiaf, y tro cyntaf imi fynd i gartref Gwilym Roberts yn 6 Heol Wen, Rhiwbina. Gwilym oedd un o brif ysgogwyr sefydlu Aelwyd yr Urdd yng Nghaerdydd yn Ionawr 1959, bron yn syth wedi iddo ddychwelyd i Gaerdydd i fod yn athro ysgol gynradd ar ôl ei ddyddiau coleg. Yn Nhŷ'r Cymry yn Heol Gordon y sefydlwyd yr Aelwyd, ond wrth iddi dyfu, symudodd y cyfarfodydd i neuadd yn 51 Heol Siarl ym mis Medi 1959 ac yna i festri Capel Undodaidd West Grove ym mis Tachwedd 1961, cyn ymgartrefu yng nghanolfan newydd yr Urdd yn Heol Conwy ym mis Medi 1967. Byddwn yn dod i lawr ar dro i gyfarfodydd Aelwyd yr Urdd yn Heol Conwy ar nosweithiau Gwener. Ond nid dyna fy rheswm dros ymweld â Gwilym yn ei gartref yn Rhiwbina ar 6 Ionawr 1968.

Roedd nifer o ddisgyblion y Chweched Dosbarth yn fy ysgol i, a sawl un ohonynt wedi bod ar Gwrs y Pasg yng Nglan-llyn yn 1967 (gan gynnwys Anne England, a ddaeth wedi hynny yn ddarlithydd yn y Gymraeg yn yr hyn sy'n awr yn Brifysgol De Cymru yn Nhrefforest), yn ymroi yn frwdfrydig i hybu gweithgareddau'r Urdd yn ein hysgol. A diben fy ymweliad â Gwilym y Sadwrn hwnnw yn Ionawr 1968 oedd gofyn am ei gyngor a'i gymorth inni – ac fe gafwyd hynny'n hael ganddo.


Un cais penodol gennyf y diwrnod hwnnw oedd am gael geiriau cân yr oedd Gwilym mor hoff o'i pherfformio, sef 'Yr eliffant mawr a'r cangarŵ, i mewn i'r arch â nhw', fel y gallem ei chanu yn ein hysgol. Mae Gwilym ei hunan wedi egluro sut y daeth y gân honno i fod. Yn ystod y flwyddyn academaidd 1957–58, roedd yn dilyn cwrs diploma ar ddwyieithrwydd dan gyfarwyddyd Jac L. Williams yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn rhan o'r cwrs, treuliodd gyfnod yn gwneud ymarfer dysgu yn Ysgol Gynradd y Bermo. Un bore, wrth deithio ar y trên i'r ysgol, dyma'r sgwrs rhyngddo ef a pherthynas iddo yn troi at gân Saesneg am Arch Noa. Cytunwyd y byddai'n dda cael cân debyg yn y Gymraeg, ac aethpwyd mor bell â meddwl am gytgan – 'Ribidirês, ribidirês, i mewn i'r Arch â nhw'. Prifathro'r ysgol oedd y bardd, W. D. Williams. Soniwyd wrtho am yr ymgais i ysgrifennu cân, ac erbyn amser chwarae'r bore hwnnw, roedd y prifathro wedi llunio pedwar pennill pwrpasol yn dechrau 'Yr eliffant mawr a'r cangarŵ'.

Roedd W. D. Williams (1900–85) yn olygydd cylchgrawn *Yr Athro*, ac mae'r ffaith fod Gwilym Roberts wedi gwneud ymarfer dysgu yn ei ysgol yn egluro, mae'n siŵr, paham yr ymddangosodd sawl eitem ar gyfer plant ysgol gynradd gan Gwilym yn *Yr Athro* yn 1958, gan gynnwys dramâu am Owain Glyndŵr ac Ifor Bach a stori am Jemima Nicholas. Roedd W. D. Williams yn fardd cynhyrchiol iawn. Ef a enillodd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Drenewydd yn 1965; ac ef yw awdur yr englyn adnabyddus:

O, Dad, yn deulu dedwydd — y deuwn
Â diolch o newydd,
Cans o'th Law y daw bob dydd
Ein lluniaeth a'n llawenydd.

Cipiodd yr englyn hwnnw y wobr gyntaf yn Eisteddfod Llawr Dyrnu'r Sarnau, ger y Bala, nos Galan 1941. Daeth i amlygrwydd rhyngwladol pan gafodd ei adrodd yn *The Last Days of Dolwyn* (1949), ffilm gyntaf Richard Burton. Fe'i cynhwyswyd gan Thomas Parry yn *The Oxford Book of Welsh Verse* (1962), a'r englyn hwn yw'r gras bwyd yng Ngholeg Kellogg, Rhydychen. Dyna'r unig gras bwyd yng ngholegau Prifysgol Rhydychen nad yw yn y Lladin; ac mae'r diolch am hynny i Lywydd cyntaf y coleg (a sefydlwyd ddydd Gŵyl Ddewi 1990), sef Dr Geoffrey Thomas, sy'n frodor o Faesteg. Mae'n werth ychwanegu, hefyd, fod cysylltiad rhwng W. D. Williams â'r *Dinesydd*, oherwydd wyres iddo yw un o'n colofnwyr cyson, sef Lowri Haf Cooke.

Nid yw Gwilym yn nodi pa gân Saesneg am Arch Noa a fu'n ysgogiad i lunio 'Yr eliffant mawr a'r cangarŵ', ond tybiaf mai 'The animals marched in two by two, hurrah, hooray! The elephant followed the kangaroo, hurrah, hooray!' ydoedd. Os felly, mae gan y gân honno gysylltiad Cymreig anuniongyrchol. Fe'i cofnodwyd yn 1934 yn Austin, Tecsas, gan y casglwr alawon gwerin, John Lomax, o ganu Maggie Gant a'i merch, Foy. Roedd gan y teulu *repertoire* eang o ganeuon; a phriodolir eu diddordeb mawr ym myd y gân i'r ffaith eu bod yn ddisgynyddion i Lucy Brown Reeves (1821–99), a aned yn Tennessee ond a oedd, fe ddywedir, o dras Cymreig. Hi, meddai un awdur, oedd 'the Welsh wellspring from which the songs most likely came'. Ond bid a fo am hynny, mae rhywbeth priodol rywsut yn y cysylltiad agos sydd rhwng Gwilym Roberts a chân 'Yr eliffant mawr a'r cangarŵ', oherwydd gall llawer un, gan fy nghynnwys i, dystio na fu neb yn fwy allweddol i'n cael i mewn i arch y Gymraeg na Gwilym Roberts.




Collais fy nghysylltiad rheolaidd â Gwilym wedi imi raddio, ond fe'i hadnewyddwyd ar ôl imi symud i Gaerdydd yn 1987. Byddem yn gweld ein gilydd mewn cyd-destunau Cymraeg amrywiol, ond yn bennaf yng nghyd-destun *Y Dinesydd*. Daeth y ddau ohonom yn aelodau o'r tîm golygyddol ar adeg arbennig o ansefydlog yn hanes y papur yn nechrau'r 1990au. Fel yr adroddais yn rhifyn Ebrill/Mai 2023 o'r *Dinesydd*, bu Gwilym yn gefn mawr i mi yn ystod fy nghyfnod yn Gadeirydd pwyllgor *Y Dinesydd*, nid lleiaf yn yr argyfwng ariannol mawr a gododd yn 2006. Ac yn wir, oni bai am ymdrech arwrol Gwilym yn codi dros £4,500 mewn rhoddion yr adeg honno, mae'n bosibl iawn na fyddai'r *Dinesydd* yn bod heddiw imi gyhoeddi'r erthygl hon ynddo!